# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Fercher y 8fed o Dachwedd am 1900yh yn Festri capel Bethlehem, Talybont**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Robin Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris, a wnaeth gymeryd yr awennau yn absenoldeb y Y Cadeirydd Kevin Williams a'r Is-gadeirydd Lowri Evans.

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Geraint Hughess
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Lowri Evans

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Hydref 2023.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Ian Morgan, Cyngor Gwynedd. Maent yn gobeithio cyfarfod gyda'r perchennog dros y gaeaf. Ni fydd y gwaith yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol yma ond gobeithio cael gwaith papur yn ei le erbyn y flwyddyn ariannol nesaf

**4.2 Arwyddion Maes y Groes –** Cafwyd cadarnhad gan Ian Morgan, Cyngor Gwynedd fod arwyddion Maes y Groes ar rhestr archeb y Cyngor. Nid yw'r rhestr wedi ei gyflwyno i'r cyflenwyr hyd yma.
**4.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes** Y Cyng. Dafydd Meurig wedi cael diweddariad gan y swyddog perthnasol, maent yn disgwyl ymateb gan YGC.
**4.4 Bryn Derwas –** Gosod bin halen Bryn Derwas ar rhestr asesiad Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**4.5 Darpariaeth Ysgol Llanllechid i ddatblygiad Cae Rhosydd**. **–** Mae'r Cyng Geraint Hughes wedi drafftio llythyr at sylw Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn amlygu yr effaith ac obligadau tymor hir y bydd y datblygaid yn cael ar yr ardal. Y Clerc i ddosbarthu i llythyr i'r Cynghorwyr unwaith y ceir gopi. Dim diweddariad.
**4.6 Safle bws Talybont –** Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Celfyddydau Cymru yn holi am fanylion unrhyw prosiectau celf lleol. Disgwyl ymateb.
**4.7 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn** – Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Ian Morgan, Cyngor Gwynedd. Mae Ian wedi atgoffa Eilir Morgan i gysylltu gyda'r Cyng Kevin Williams.

**4.8 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –**. Arolygydd i fod i wneud ymchwiliad. Ian Morgan am ddilyn i fyny. Oherwydd methu cael peiriant arferol i mewn oherwydd maint y lon – rhaid defnyddio peiriant llai. Ty'n Hendre ar y amserlen ysgubo dail.

**4.9 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Dim diweddariad. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**4.10 Diffyg biniau baw ci ar lwybr beicio Wîg –** Ebost gan y Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Mae'n disgwyl am fanylion pellach gan y datblygwyr, gan gynnwys map sy'n dangos lleoliadau mynediadau ayyb. Maent hefyd eisiau cynnal patrolau ar hyd y llwybr newydd ac adnabod maint unrhyw broblemau a lleoliadau addas ar gyfer arwyddion rhybudd "Glanhewch".Mi fydd hefyd yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'ch cais am fin wrth ymyl Fferm Wig.
**4.11 Tai i bobl lleol –** Y Cynghorydd Lowri Evans wedi drafftio llythyr i'w hanfon at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn yn codi pryderon sydd gan Cyngor Cymuned Llanllechid am dai fforddiadwy yn Nyffryn Ogwen. Y Clerc wedi derbyn cyfathrebiad gan cynghorau Bethesda a Llandygai yn cefnogi.
**4.12 Mast telathrebu, Talybont** – Ebost gan A. Rhys Roberts Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu yn cadarnhau nad oes unrhyw bwerau gan y Gwasanaeth Cynllunio i fynnu bod rhwystr yn cael ei osod o amgylch y datblygiad hwn.
**4.13 Ysbwriel –** Y Clerc i drefnu gyda Partneriaeth Ogwen i'r Swyddog Cynhaliaeth godi ysbwriel ar y ffordd rhwng sgwâr Llanllechid a chwarel Bryn.
**4.14** Derbynwyd ebost gan Y Cyng Dafydd Meurig yn adrodd fod

1. Arwydd angen ei adnewyddu - edrych fel ei fod wedi cael ei dorri gan gerbyd
2. Tyfiant yn cuddio arwyddion ffyrdd
3. Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre wedi pydru.

Y Clerc wedi cyflwyno adroddiad ar 'Fy Nghyfrif' Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**4.15 Ffiniau y Cae Peldroed –** Nid oes gan Y Cyngor Cymuned unrhyw ddogfennau am ffiniau y cae.
**4.16 Eglwys Llan –** Y Clerc wedi trefnu cael torri y fynwent. Dim diweddariad.
**4.17 Dŵr yn llifo ar lwybr sydd yn rhedeg i Landygai wrth ochr bont Aberogwen –** Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Cymuned Llandygai. Disgwyl ymateb.

**5. Adroddiad Cyngor Sir**

Dim adroddiad.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Evan Jones | Padlock i container Cae Peldroed | £62.29 |
| Julian Johnson | Torri a hel Gwair Bro Emrys Mis Hydref | £75 |
| Kehoe Countryside | Torri Gwair Cae Peldroed | £300 |

**Cyfrif Mynydd**

| | | |
|---|---|---|
| Richard Temple Morris | Gwaith bugail mynydd Llanllechid 2023 | £3000 |

**7. Y Mynydd**

Derbynnwyd holl taliadau porwyr. Y Cyng Wyn Bowen Harries i anfon y manylion i'r Tîm prosesu, Taliadau Gwledig Cymru.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**8.1 Peiriant torri gwair** - Y Cyng. Kevin Williams wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £6000. Dim diweddariad.
**8.2** Cyfarfu Y Cynghorwyr Evan Jones a Wyn Bowen Harries a Sion Eifion Jones (Swyddog Prosiect Cymunedol, ADRA) a Michael Evans (Cydlynydd Rheoli Tir, ADRA). Mae ADRA yn cyflwyno grant hyd at £1,000 tuag at
brosiectau cymunedol. Ond, bydd raid i'r cais ddod gan banel etholedig o'r gymuned wedi ei gofrestru ac efo cyfansoddiad a chyfrif banc. ADRA am wirio hyn.
Gallai'r man parcio fod yn broblemus o safbwynt hawl
cynllunio ond i gysylltu â Steffan Jones, Uwch Reolwr Priffyrdd i drafod hyn. Disgwyl diweddariad.
**8.3 Contractwr** - Cafwyd rhai dyfynbrisiau gan contractwyr am y gwaith. Yn aros am ddyfyniadau pellach.

**9. Gohebiaeth**

**9.1** Derbynwyd gohebiaeth gan Cyswllt Chwarel Penrhyn yn chwilio am gynrychiolydd o Gyngor Cymuned Llanllechid i fynychu cyfarfodydd pwyllgor y chwarel. Cytynwyd i'r Cynghorydd Dafydd K Jones gynrychioli Cyngor Cymuned Llanllechid.

**10. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng Wyn Bowen-Harries o gyfarfod blynyddol Ynni Ogwen. Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gefnogol iawn o'r prosiect a'i llwyddiant.

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng Jen Morris fod digwyddiad OMM wedi bod yn hynod o lwyddiannus eleni, gyda bron i 1800 o redwyr.

**11. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**NP3/21/102A**
Fferm Y Bryn, Llanllechid. LL57 3LG
Estyniad a newidiadau i annedd, addasu adeilad allanol ynghlwm yn llety gwyliau hunanarlwyo tymor byr a chreu mynedfa newydd i gerbydau
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Y Cyng. Kevin Williams yn datgan diddordeb.**

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**12. Materion Brys/Eraill**

**12.1 Tyllau yn y ffordd o dan y bont rheilffordd, Lon ddwr, Talybont.** Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**12.2 Wal Stad Cae Rhosydd -** Ymateb gan Rheolwr Prosiect Datblygu:

Yn Dilyn edrych ar y wal eto, er bod ei thop hi'n wastad, mae hi'n mynd i gymeryd dipyn o ymdrech i'w dringo er mwyn cerdded ar ei hyd hi gyda dim rhan ohoni yn creu gwahoddiad i'w dringo.
Tra'n bod ni'n gwerthfawroi y gallu i neud, fel unrhyw wal arall. Tydi o ddim yn codi pryder Iechyd a diogelwch i ni yn yr achos yma.
Yn ogystal a hyn mae'r caniatad cynllunio yn atal i ni godi ei uchter dim uwch er mwyn gallu gweld lawr y lon pan yn dreifio allan o'r stad.

**12.3 Twll yn y ffordd Ffarm Penybryn** - Cyngor Gwynedd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith pan fydd adnodd ar gael.

**13. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhelwyd cyfarfod Mis Tachwedd ar y 8fed o Dachwedd yn Festri Capel Bethlehem.
Rydym wedi derbyn yr holl taliadau dyraniad tîr pori, a gyrrwyd y ddogfennau i Gaerfyrddin.
Cafwyd adroddiad gan Y Cyng Wyn Bowen-Harries o gyfarfod blynyddol Ynni Ogwen.
Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gefnogol iawn o'r prosiect a'i llwyddiant.
Mae wedi dod i'n sylw, faint o ysbwriel sydd mewn nifer o leolidau o fewn y plwyf.
Mae'n drist iawn i'w gweld, a phenderfynwyd gyflogi unigolyn i godi yr ysbwriel.
Cynhalwyd râs fynydd OMM yn ddiweddar gyda 1800 o redwyr yn cymeryd rhan.
Hoffem longyfarch y trefnwyr am y llwyddiant eleni.
Nadolig llawen iawn i bawb, a blwyddyn newydd dda.